**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2013 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrattaid (RGW), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (AS), Rheolwr Polisi Cynllunio (AL), Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (TW), Cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru (GB a/ac HLJ) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) James Davies, Martyn Holland, Colin Hughes, Peter Owen, David Simmons, Barbara Smith a/ac Cheryl Williams

Cyn y cyfarfod dywedodd y Cadeirydd wrth y Cyngor fod y Cynghorydd Peter Owen yn yr ysbyty yn dilyn triniaeth ac roedd eisiau anfon dymuniadau gorau pawb i'r Cynghorydd Owen a bydd yn anfon cerdyn gwellhad buan.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cynghorydd Pat Jones a fyddai modd iddi gyflwyno deiseb ynglŷn â: Ffordd y Bryn. Roedd hon yn ddeiseb i atal un o'r trigolion rhag agor ffens eu gardd er mwyn rhoi mynediad i gerbydau gwaith. Derbyniwyd y ddeiseb gan y Cadeirydd.

Cyhoeddodd y Cadeirydd ein bod yn nhymor yr Eisteddfodau a llongyfarchodd y plant a'r bobl ifanc o Sir Ddinbych a oedd wedi cystadlu'n ddiweddar ac wedi cael llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Benfro a'r rhai a gynhaliwyd cyn hynny. Diolchodd hefyd y rhieni, athrawon a'r neiniau a'r teidiau a phawb oedd wedi cymryd rhan.

Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen fyddai nesaf ac yna byddai'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn Ninbych ym mis Awst. Byddai un o Gynghorwyr Sir Ddinbych, Meirick Lloyd Davies yn cael ei anrhydeddu gyda gwisg las Gorsedd y Beirdd ar 9 Awst am wasanaethau i'w gymuned a'r iaith Gymraeg.

Y targed codi arian ar gyfer yr Eisteddfod yn Ninbych oedd £300,000 ac roedd y swm a godwyd bellach wedi codi i bron i £320,000. Dymunai'r Cadeirydd fynegi ei ddiolch i Aelodau Tref Dinbych, am weithio'n galed i godi'r swm hwn a llongyfarchodd bawb yn Sir Ddinbych.

Cyhoeddodd y Cadeirydd enillydd cystadleuaeth enwi Pont y Rhyl:

Cefnogodd Bwrdd Prosiect Harbwr y Rhyl gystadleuaeth i helpu dod o hyd i'r enw mwyaf priodol ar gyfer y Bont newydd i Gerddwyr a Beicwyr dros yr afon Clwyd.

Roedd y gystadleuaeth ar agor i holl blant ysgol gynradd y Rhyl, Tywyn a Bae Cinmel. Gofynnwyd i'r disgyblion gynnig enw ar gyfer y bont gyda stori fer i egluro pam eu bod wedi dewis yr enw a ddylai gynnwys rhai neu bob un o'r nodweddion a ganlyn.

- gwreiddiau Cymreig (Diwylliant, Hanes, Iaith)
- bod stori i'w egluro
- bod ffurf weledol iddo
- ysbrydoli'r cyfle i greu digwyddiadau yn seiliedig ar yr enw

Rhoddodd panel annibynnol ystyriaeth i dros 30 o enwau a gyflwynwyd gan y pum ysgol a gymerodd ran yn y gystadleuaeth.

- Ysgol Maes Owen
- Ysgol Llywelyn
- Ysgol Christchurch
- Ysgol Bryn Hedydd
- Ysgol y Foryd

Roedd pob un o'r enwau a gyflwynwyd yn greadigol ac yn ddiddorol, ac roedd yn ddewis anodd iawn i'r panel, ond yn y pen draw cytunwyd fod pum cynnig yn sefyll allan ac yn cadw at y meini prawf beirniadu. Ar ôl trafodaeth hir Leon Jones o Ysgol Maes Owen ysbrydolodd yr enw a ddewiswyd gan y panel **'Pont y Ddraig'.** Byddai'r enw'n cael ei ddangos bob ochr i'r bont. Y tri a oedd nesaf at y gorau oedd:
Cassie Parry - Ysgol Maes Owen
Adam Torkoniak - Ysgol Maes Owen
Kiera McEwan-Williams - Ysgol Maes Owen
Bydd cyflwyniad gwobrwyo ffurfiol yn cael ei gynnal yn ystod agoriad swyddogol y Bont Gerdded a Beicio ym mis Medi 2013.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaeth y Cynghorydd Paul Penlington ddatganiad o fuddiant yn yr eitem "Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych" (Eitem 6 ar y Rhaglen).

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ymrwymiadau dinesig a gynhaliwyd ar ran y Cyngor gan y cyn-Gadeirydd a'r Cadeirydd newydd dros y cyfnod 27 Ebrill i 24 Mai 2013 wedi'i chylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r rhestr o ymrwymiadau dinesig a gynhaliwyd ar ran y Cyngor gan y cyn-Gadeirydd a'r Cadeirydd newydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Mai, 2013.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2013 fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.*

## 6 MABWYSIADU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2006 – 2021

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (a gylchredwyd yn flaenorol) i roi gwybod i Aelodau am ganfyddiadau Adroddiad rhwymol yr Arolygwyr i Gynllun Datblygu Lleol CSDd 2006 – 2021; gofyn i fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn ffurfiol a cheisio cael cymeradwyaeth i ddwyn ymlaen y gyfres bresennol o Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i'w defnyddio gyda'r Cynllun Datblygu Lleol. Nododd y Cynghorydd Williams bwysigrwydd cael rheolaeth dros ddatblygu yn y sir ond mynegodd ei siom am y pedwar darn ychwanegol o dir oedd wedi'u hychwanegu at y CDLl gan yr Arolygwr.

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Polisi Cynllunio eu bod yn argymell derbyn yr adroddiad. Roedd Swyddogion wedi gweithio'n galed ers sawl blwyddyn i gynhyrchu dogfen y CDLl. Dros y 12 mis diwethaf cynhaliwyd nifer o sesiynau gwrandawiad cyhoeddus gyda'r Arolygwr.

Yn dilyn cytundeb yn y Cyngor llawn ar 20 Mai 2011, cyflwynwyd y CDLl a'i sail tystiolaeth yn ffurfiol i'r Arolygaeth Gynllunio ar gyfer ei archwilio'n gyhoeddus. Cynhaliwyd sesiynau Gwrandawiad Cyhoeddus ym mis Ionawr a mis Chwefror 2012 a chynhaliwyd sesiynau Gwrandawiad pellach ym mis Mai 2012. Rhyddhaodd yr Arolygwyr eu canfyddiadau cychwynnol ar 14 Mehefin 2012. Cynhaliwyd sesiynau Gwrandawiad pellach ym mis Chwefror 2013 i alluogi trafodaethau i gael eu cynnal ac i unrhyw wrthwynebwyr gyflwyno eu pryderon a'u tystiolaeth i'r Arolygwyr. Cynhaliwyd 28 o sesiynau Gwrandawiad Cyhoeddus unigol dros gyfnod o 13 mis.

Rôl yr Arolygwyr oedd ystyried y CDLl, yn ogystal â'r holl dystiolaeth, gan gynnwys sylwadau a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r sesiynau gwrandawiad cyhoeddus. Roedd yn rhaid i'r Arolygwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor a nodi a oeddent yn ystyried fod y CDLl yn "gadarn". Roedd adroddiad yr Arolygwyr yn rhwymol ar y Cyngor.

Casgliad yr Arolygwyr oedd bod y CDLl yn "gadarn ac y gellir ei gyflawni" yn amodol ar rai addasiadau.

I grynhoi, y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- Cyflawnwyd gofynion cyfreithiol a phrofion trefniadol
- Cefnogwyd y strategaeth gyffredinol a dosbarthiad twf, gan gynnwys SSA Bodelwyddan
- Cefnogwyd y ffigwr tai llawn o 7,500 annedd ond byddai dyraniadau tai ychwanegol yn cael eu cynnwys i gynyddu'r cyflenwad tir. Cynigwyd 21 o safleoedd gan y Cyngor **a hefyd** pedwar safle oedd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad cynharach (Mawrth/Ebrill 2012) nad oedd y Cyngor wedi'u cynnig ar gyfer eu dyrannu. Y pedwar safle oedd:
    - Tir gerllaw The Padock, Llanelwy
    - Bryn Gobaith, Llanelwy
    - Ffordd Hendre, Gallt Melid
    - Tu ôl i Castle View a The Hollies, Llangollen
- **Nid** oedd polisi datblygu fesul cam bwriedig y Cyngor ar gyfer datblygu safleoedd ychwanegol wedi'i gynnwys yn y cynllun
- Byddai gofyniad isafswm dwysedd o 35 annedd yr ha yn cael ei gynnwys. Ni fyddai hyn yn berthnasol i bentrefi a nifer fechan o safleoedd unigol.
- Addasiadau i'r Polisi Tai Fforddiadwy:
    - Byddai datblygiadau o 10 neu ragor o anheddau yn cynnwys darpariaeth tai fforddiadwy o 10%
    - Byddai datblygiadau 3-9 annedd yn gwneud cyfraniad ariannol
    - Byddai'r gofynion uchod yn cynyddu unwaith y byddai prisiau gwerthu 10% i 20% yn uwch na phrisiau 2009.
- Byddai'r Ardal o Harddwch Eithriadol (AHE) yn cael ei dynnu'n rhannol o'r mapiau cynigion ac ni fyddai'n derbyn yr un lefel o ddiogelwch â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

Roedd tir cyflogaeth wedi'i gadw yn y Cynllun ac wedi'i dderbyn gan yr Arolygwyr. Roedd potensial i hyn greu 8000 o swyddi.

Mynegodd y Cynghorydd Peter Evans ei anghytundeb gyda'r Cynllun. Mynegodd bryderon ynglŷn ag isadeiledd Ffordd Hendre, Gallt Melid. Nododd y Cynghorydd Evans y byddai'n pleidleisio yn erbyn mabwysiadu'r Cynllun a galwodd am bleidlais wedi'i chofnodi.

Mynegodd y Cynghorydd Stuart Davies ei anghytundeb gyda'r Cynllun, oherwydd y ffaith fod "tu ôl i The Hollies" Llangollen wedi'i ychwanegu i'r Cynllun. Nododd y Cynghorydd Davies y byddai'n pleidleisio yn erbyn mabwysiadu'r Cynllun.

Nododd y Cynghorydd Alice Jones nad oed y Cynllun yn gadarn yn ei barn hi. Dymunai'r Cynghorydd Jones gydnabod pobl Bodelwyddan a oedd wedi gwrthwynebu'r Cynllun. Nododd y Cynghorydd Jones y byddai'n sicr yn pleidleisio yn erbyn mabwysiadu'r Cynllun.

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (P:C&GC) fod yr Arolygydd yn berson annibynnol a'i fod wedi dod i'r casgliad fod y Cynllun yn gadarn. Nid oedd yn Gynllun perffaith gan nad oedd yn rhoi popeth roeddent yn

dymuno i bawb ond, at ei gilydd, roedd yn Gynllun da iawn. Roedd cyfle i'r pwyllgor Cynllunio ddelio â materion yn ymwneud â'r safle gan y gellid gwrthod caniatâd cynllunio oherwydd materion isadeiledd. Gallai'r CCA ychwanegu gofynion isadeiledd i'r 25 safle.

Cadarnhaodd y Rheolwr Polisi Cynllunio (RhPC) fod materion isadeiledd gyda phob un o'r 25 safle a byddai hyn yn caniatáu'r Pwyllgor Cynllunio i gael rheolaeth dros y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd.

Siaradodd y Cynghorydd Richard Davies ar ran trigolion ardal Brwcws Dinbych. Mynegodd ei siom ynglŷn â'r ffaith fod dau safle yn Ninbych wedi eu cynnwys yn y CDLl. Teimlai trigolion fod y Cyngor a Llywodraeth Cymru wedi mynd yn groes i'w polisïau cynllunio eu hunain. Nododd y Cynghorydd Davies y byddai'n pleidleisio yn erbyn y Cynllun. Yna gofynnodd y Cyng. Davies i'r P: C&GC beth fyddai'r broses pe na bai'r Cyngor yn mabwysiadu'r CDLl heddiw.

Dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod y Cynllun yn hollol simsan. Roedd tir da'n cael ei ddifetha. Mynegodd y Cynghorydd Roberts bryder na fyddai pobl leol yn gallu cael y swyddi na'r tai ac y byddai'r rhain yn mynd i bobl o'r tu allan i'r ardal. Anogodd y Cynghorydd Roberts yr Aelodau i bleidleisio yn erbyn mabwysiadu'r Cynllun.

Rhoddodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, eglurhad pe bai'r Arolygydd yn cael ei herio ac nad oedd y CDLl yn cael ei fabwysiadu, byddai'n cael ei gyfeirio at y Gweinidog a Llywodraeth Cymru fyddai wedyn yn gwneud y penderfyniadau. Gellid defnyddio adroddiad yr Arolygwr fel tystiolaeth ar gyfer ceisiadau cynllunio. Byddai Aelodau mewn sefyllfa fwy ffafriol o ran diogelu a rheoli ceisiadau cynllunio pe baent yn mabwysiadu'r Cynllun. Un o'r heriau mwyaf i'r awdurdod lleol oedd bod yr Arolygwr wedi gostwng nifer y tai fforddiadwy o 30% i 10% er mwyn symud datblygiadau yn eu blaen. Roedd y tai fforddiadwy wedi'u cynnwys i gynorthwyo pobl ifanc i gamu ar y farchnad eiddo. Roedd 26 erw o dir cyflogaeth yn y Cynllun a oedd yn golygu'r posibilrwydd o greu 8000 o swyddi o fewn y 10 mlynedd nesaf. Nododd y Cynghorydd Evans y byddai'n pleidleisio o blaid mabwysiadu'r Cynllun.

Eglurodd y P:C&GC y byddai'n fuddiol edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd a pheidio edrych ar safleoedd penodol. 7,500 oedd y ffigwr a gydnabuwyd gan fod angen darparu tai i bobl oedd yn byw yn Sir Ddinbych a hefyd annog twf swyddi. Roedd potensial ar gyfer 8000 o swyddi yn y dyfodol ond nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai pob un o'r rhain yn mynd i bobl leol. Roedd y dyraniad tir ar gyfer 8000 o swyddi posibl yn beth da ond roedd hefyd y fantais y byddai'r farchnad lafur leol yn cael mynediad i'r swyddi hynny.

Roedd yn cynnig cyfle adfywio gwych a fyddai hefyd yn gweithio gyda Chynllun y Rhyl yn Symud Ymlaen. Roedd ystadegau'n dangos fod 67% o'r bobl oedd yn byw yn y tai newydd a godwyd yn y sir yn dod o Sir Ddinbych ac roedd 87% yn dod o fewn Gogledd Cymru.

Roedd canran y tai fforddiadwy wedi'i ostwng o 30% i 10%. Dyma faint y gallai'r farchnad leol ei gynnal. Os, yn y dyfodol, y byddai tystiolaeth y gallai'r farchnad

gynnal mwy na 10% o dai fforddiadwy, byddai gan y Cyngor bolisi a allai gynyddu'r ganran.

Roedd y CDLl yn cynnwys polisi nad oedd wedi'i gynnwys yn y CDU sef y byddai pob tŷ newydd a godwyd ym mhentrefannau gwledig Sir Ddinbych, yn dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol)(Cymru) 2005 y nodi fod rhaid i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun o fewn 8 wythnos i ddyddiad cyhoeddi Adroddiad yr Arolygwyr.

Cytunai'r Cynghorydd David Smith fod angen 7500 o dai ac 8000 o swyddi yn y sir. Roedd y Cynghorydd Smith yn cytuno y dylid mabwysiadau'r Cynllun a drwy hynny ganiatáu'r Pwyllgor Cynllunio i reoli pob cais cynllunio. Roedd gan y Pwyllgor Cynllunio'r grym i ychwanegu amodau i unrhyw Ganiatâd Cynllunio. Byddai Grŵp CDLl yn cael ei sefydlu a fyddai'n cynnwys Cynghorwyr, a fyddai'n gallu craffu ar bob cais cynllunio. Nododd y Cynghorydd Smith y byddai'n pleidleisio o blaid mabwysiadu'r Cynllun.

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley a'r Cynghorydd Hugh Irving y byddent, ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus, yn pleidleisio o blaid mabwysiadu'r Cynllun.

**Ar y pwynt hwn (11.25 a.m.) cafwyd toriad**

**Ail ddechreuodd y cyfarfod am 11.50 a.m.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Bill Cowie gan fod yn rhaid iddo adael ail ran cyfarfod y Cyngor.

Derbyniwyd rhybudd ymlaen llaw o ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Alice Jones gan y byddai'n gadael y cyfarfod yn fuan.

Datganiad o Fuddiant – gwnaeth y Cynghorydd Huw Williams ddatganiad o fuddiant personol mewn 3 darn o dir yn Llanbedr.

Cododd y Cynghorydd Rhys Hughes fater y Polisi Tai presennol lle byddai'n rhaid i berson fod ar frig y rhestr tai i gael ei ystyried am dŷ yn Sir Ddinbych. Mynegodd y Cynghorydd Hughes ei anfodlonrwydd gyda'r Cynllun oherwydd bod ysgolion, siopau, capeli a thafarndai i gyd yn cau. Cwestiynodd hefyd a oedd pob Cyngor arall yng Nghymru wedi mabwysiadu CDLl.

Eglurodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler fod Aelodau wedi dod i Lywodraeth leol i gynrychioli'r bobl. Mynegodd y Cynghorydd Kensler bryder oherwydd y ffaith fod yr ymagwedd datblygu fesul dipyn wedi hepgor o'r CDLl a bod y ganran o gartrefi fforddiadwy wedi'i gostwng o 30% i 10%. Nododd nad oedd gan CCA unrhyw rym statudol yn ei barn hi. Unwaith y byddai cefn gwlad wedi'i datblygu byddai wedi'i cholli ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Ymatebodd y RhPC nad oedd eiddo'n cau mewn ardaloedd gwledig a cholli cyfleusterau cymunedol yn unigryw i Sir Ddinbych. Roedd yn digwydd yn sgil y newid yn arferion siopa pobl a diwylliant modern. Roedd Sir Ddinbych yn gwneud eu gorau i gefnogi cyfleusterau lleol. Dywedodd hefyd fod:

- Tai fforddiadwy mewn grwpiau o glystyrau bychain wedi bod yn gam ymlaen.

- Cafwyd ymgynghoriadau ar y safleoedd ac roedd nifer o bobl a oedd wedi gwrthwynebu yn bresennol.

- Gallai'r SPG, os oedd yn mynd drwy'r broses gywir, fod â llawer o rym wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

- Roedd holl Awdurdodau Cymru yn paratoi CDLl i'w fabwysiadu. Nid oedd Torfaen ac Ynys Môn wedi mabwysiadu CDU ond roeddent yn mynd drwy broses o greu CDLl ar hyn o bryd.

- Os na fyddai'r CDLl mewn grym, byddai risg o ddatblygiadau achlysurol na ellid eu rheoli mewn ardaloedd anaddas.

Dywedodd y Cynghorydd Dewi Owens ei fod yn cymeradwyo'r rhan fwyaf o gynnwys y Cynllun ond nid oedd o blaid y safleoedd a ychwanegwyd gan yr Arolygwr. Teimlai'r Cynghorydd Owens fod rhaid cymeradwyo'r Cynllun i alluogi Aelodau i ddelio gyda materion pan wnaed ceisiadau. Awgrymodd y Cynghorydd Owens hefyd y dylid cysylltu â Llywodraeth Cymru i ganfod beth oedd grym yr Arolygydd a sut roeddent yn cael eu craffu arnynt.

Dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ei fod o blaid mabwysiadu'r Cynllun gan ei bod yn amhosibl llunio CDLl a fyddai'n bodloni pawb. Byddai goblygiadau peidio â mabwysiadu'r Cynllun yn golygu bwlch estynedig a fyddai'n gadael y Cyngor yn agored i ddatblygiadau ad-hoc. Nododd y Cynghorydd Thompson-Hill y byddai'n pleidleisio o blaid mabwysiadu'r Cynllun.

Mynegodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies bryder ynglŷn â datblygu cefn gwlad ac yn enwedig y tir ychwanegol a ddyrannwyd yn Llanelwy. Mynegodd bryder hefyd ynglŷn â datblygwyr yn targedu'r sir dim ond er mwyn gwneud arian.

Mynegodd y Cynghorydd Bob Murray bryderon a nododd y byddai'n pleidleisio yn erbyn mabwysiadu'r Cynllun.

Eglurodd y RhPC fod y CDU wedi dod i ben ddiwedd 2011 a'i fod bellach wedi dyddio. O ran y Cynghorau heb gynlluniau yn eu lle, roedd pob un yn symud ymlaen i fabwysiadu CDLl. Roedd sawl sylw wedi bod ynglŷn â mater hollbwysig democratiaeth a phroses. Roedd y prif fater yn ymwneud a'r cam terfynol a'r pedwar safle atodol a ychwanegwyd. Roedd rhan fwyaf y Cynllun wedi'i sefydlu gan y Cyngor. Roedd hwn yn gynllun lefel uchel. Byddai pob safle yn destun cais cynllunio manwl, yn enwedig gan fod materion sylweddol yn codi gyda rhai safleoedd.

Yn dilyn y drafodaeth ddwys a gafwyd, teimlai Aelodau fod y rheolaeth oedd gan yr Arolygwyr a Llywodraeth Cymru dros y CDLl yn tanseilio rheolaeth ac atebolrwydd democrataidd lleol, ac roeddent yn gresynu at y sefyllfa.

Rhoddodd y Cynghorydd Eryl Williams anerchiad i gloi. Cynigiodd y Cynghorydd Williams y dylid derbyn argymhelliad 1, argymhelliad 2 ac argymhelliad 3. Eiliodd y Cynghorydd Hugh Irving y cynnig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion. Cytunwyd yn unfrydol y dylid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi.

Nododd y P:GC&D y bleidlais a gofnodwyd lle pleidleisiodd 21 o Aelodau o blaid yr argymhellion a phleidleisiodd 18 Aelod yn erbyn yr argymhellion.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cyngor:-*

*(1) Yn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (gan gynnwys y Map Cynigion) fel y'i diwygiwyd gan argymhellion rhwymol yr Arolygwr yn unol ag Adran 67 Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllunio Trefi a Chymunedau (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.*

*(2) Yn cytuno i ddwyn ymlaen y rhestr o Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol i'w defnyddio i bennu ceisiadau cynllunio, yn amodol ar adolygiad llawn o'r holl ganllawiau presennol.*

*(3) Cytuno y bydd y CCA, cynllun(iau) isadeiledd, briffiau datblygu ac ati yn ofynnol, yn ôl yr angen, lle bod hynny'n briodol, cyn y datblygir y 25 safle atodol.*

*(4) Yn cofrestru pleidlais a gofnodwyd fel a ganlyn:*

*a. Yn pleidleisio o blaid y Cynnig i fabwysiadu'r CDLl – y Cynghorwyr Ian Armstrong, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain Jones, Meirick Lloyd Davies, Richard Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Hugh Irving, Huw Jones, Pat Jones, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarrol, Barry Mellor, Win Mullen-James, Dewi Owens, Merfyn Parry, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, ac Eryl Williams*

*b. Yn pleidleisio yn erbyn y Cynnig i fabwysiadu'r CDLl – Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Ann Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Evans, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Hughes, Alice Jones, Gwyneth Kensler, Jason McLellan, Bob Murray, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Joe Welch, Cefyn Williams a Huw Williams.*

## 7 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB). Roedd yr AGB yn adroddiad allweddol a gynhyrchwyd bob blwyddyn. Ar y cyfan roedd hwn yn adroddiad positif iawn. Roedd yr adroddiad yn amlygu meysydd lle gellid gwneud gwelliannau pellach ond nid oedd unrhyw argymhellion pellach yn yr adroddiad

Eglurodd Hugh Lloyd-Jones, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fod tair prif adran i'r adroddiad.

Yn rhan gyntaf yr adroddiad daethpwyd i'r casgliad fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth:

- Roedd perfformiad yn dal i wella yn y rhan fwyaf o agweddau o waith y Cyngor i addasu darpariaeth gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â newid demograffig;
- Bu cynnydd o ran cefnogi prosiectau adfywio yn y Rhyl, ond mewn cyfnod economaidd heriol, araf fu'r cynnydd o ran cefnogi twf economaidd ar draws Sir Ddinbych yn gyffredinol;
- Roedd Estyn wedi dyfarnu fod y Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg o ansawdd da i blant a phobl ifanc a bod y rhagolygon ar gyfer gwelliannau pellach yn dda;
- Roedd rhaglen y Cyngor i wella ffyrdd yn datblygu ond, yn dilyn y llifogydd yn 2012, byddai ymchwiliad annibynnol yn penderfynu a oedd angen gweithredu i sicrhau fod risg llifogydd yn y Sir yn cael ei reoli'n briodol yn y dyfodol;
- Roedd y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da gyda'i gamau a gynlluniwyd i wella'r ffordd roedd yn gweithio.

Canfu ail ran yr adroddiad fod trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor yn cefnogi hunanwerthuso dibynadwy ond roedd lle i wella ansawdd rhywfaint o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i fesur ei effeithiolrwydd.

Yn olaf, roedd trydedd rhan yr adroddiad yn amlinellu barn SAC ynglŷn â pha mor dda roedd y Cyngor yn cynllunio am, ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Y casgliad oedd bod trefniadau'r Cyngor i gefnogi gwelliant yn dda. Yn benodol:

- Roedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd gwelliant dan y Mesur;
- Roedd y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i Gynllun Iaith Gymraeg;
- Roedd y Cyngor yn dal i wneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn asesiadau blaenorol SAC.

Daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw argymhellion newydd eleni. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd roedd y Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn adroddiad blaenorol SAC.

Rhoddodd y Cynghorydd Raymond Bartley ddiolch i Hugh Lloyd Evans (SAC) am ei gyflwyniad a dywedodd pa mor falch yr oedd o'r Cyngor hwn.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Prif Weithredwr os gallai wneud sylw. Mewn perthynas â'r drafodaeth flaenorol, Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, roedd yn falch iawn fod y cynrychiolwyr o SAC yn y cyfarfod i weld y drafodaeth. Roedd yr Aelodau yn haeddu clod am eu bod wedi'u cynnwys mor agos yn y broses.

Diolchodd y Prif weithredwr i gynrychiolwyr SAC am eu hadroddiad. Roedd yn adroddiad teg a da. Roedd Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar wasanaethau mawr, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd Sir Ddinbych wedi gwella'n sylweddol yn y ddau wasanaeth yma ac roeddent yn benderfynol i beidio â chamu yn ôl. Gwnaed cyfeiriad at adfywio a byddai strategaeth yn cael ei lansio yn yr hydref. Roedd y Prif Weithredwr yn gobeithio ac yn hyderus pan fydd SAC yn adrodd y flwyddyn nesaf, y byddent yn gallu adrodd ar gynnydd y flaenoriaeth newydd.

Mae'r broses o herio gwasanaethau wedi gwella. Roedd eisoes pethau yn eu lle a fyddai'n codi'r flwyddyn nesaf. Y Cynllun Corfforaethol newydd oedd y pwysicaf o'r rhain. Roedd y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys saith blaenoriaeth a strategaeth ariannu.

Argymhellodd Aelodau y dylid cynnal archwiliad o Grwpiau Aelodau Ardal (GAA).

Cwestiynodd y Cynghorwyr Eryl Williams a Hugh Evans beth oedd gan Lywodraeth Cymru mewn golwg ar gyfer Sir Ddinbych gan fod negeseuon cymysg yn cael eu cyfleu gan Weinidogion. Nododd y Cynghorydd Evans fod nifer o bethau roedd y Cyngor eisiau eu gwneud yn well ond nid oedd unrhyw sôn amdanynt. Gallai'r Mesur Llywodraeth Leol ganiatáu'r cyngor i ganolbwyntio ar lefel lleol. Roedd cynlluniau Tref/Ardal wedi'u cyflwyno i gynorthwyo. Roedd yr heriau i'r Rhyl yn llawer mwy nac mewn unrhyw ardal arall.

Cytunodd Hugh Lloyd Jones (SAC) fwydo'r pryderon i mewn i'w trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. Gallai argymhellion fod wedi'u gwneud yn yr Adroddiad ond byddai goblygiadau statudol iddynt.

Eglurodd Gwilym Bury (SAC) fod ychydig o gynigion wedi'u gwneud mewn llythyrau. Yn yr adroddiad terfynol, bu gwelliannau a gwnaed cynnydd iddynt, felly nid oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Cytunodd y ddau gynrychiolydd SAC bod archwiliad o GAA yn awgrym da iawn. Un maes roedd SAC wedi cytuno arsylwi arno eleni yw'r Her i Wasanaethau. Byddai hyn yn galluogi gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, fod y Cyngor yn nodi ac yn derbyn yr Adroddiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.*

**8 TREFNAU PLEIDLEISIO ELECTRONIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (P:GC&D) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i roi gwybodaeth ynglŷn â gweithrediad y system bleidleisio electronig, ceisiadau a wnaed am wybodaeth drwy'r system a goblygiadau newid y ffordd y defnyddwyr y system.

Roedd y system bleidleisio yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, wedi'i chyflwyno fel ffordd gyflym o gyfrif pleidleisiau yn y Siambr. Roedd rhai pobl wedi gofyn i'r system nodi pwy oedd wedi bwrw eu pleidleisiau mewn ffordd benodol. Roedd problem bosibl gyda rhyddhau'r wybodaeth hon pe bai'r cerdyn pleidleisio

anghywir wedi'i osod yn y slot o flaen Cynghorydd, neu os oedd Cynghorydd yn symud sedd ar ôl gosod cerdyn pleidleisio yn ei le. Felly, nid oedd sicrwydd y byddai gwybodaeth bleidleisio yn 100% cywir o safbwynt pwy a bleidleisiodd. Byddai bob amser yn gywir o ran nifer y pleidleisiau a fwriwyd mewn ffordd benodol. Derbyniwyd cais am ragor o eglurder o ran y system bleidleisio, ond byddai angen i brosesau caeth fod mewn grym, i sicrhau bod y cerdyn pleidleisio cywir yn cael ei ddefnyddio bob amser.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cyngor yn cytuno i sefydlu prosesau caeth i alluogi gwybodaeth gywir i gael ei rhyddhau drwy'r system bleidleisio electronig yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun.*

Ar y pwynt hwn, er gwybodaeth – rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r Cyngor fod canlyniad pleidlais y staff ar "arbedion effeithlonrwydd y gweithlu" wedi eu derbyn ac roedd mwyafrif llethol wedi pleidleisio o blaid derbyn y cynigion a gyflwynwyd.

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (P:GC&D) Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.30p.m.**